AMGUEDDFA
CYMRU



# COCTELS A DANTEITHION Y NADOLIG

**amgueddfa.cymru**
museum.wales

# EICH NADOLIG
# EICH STORI
# EICH AMGUEDDFA

Ydych chi awydd rhywbeth gwahanol i'r twrci a thrimins traddodiadol? Eleni yn Amgueddfa Cymru mae gennyn ni gynnig arbennig i'ch cael chi a'ch gwesteion i ymuno yn hwyl yr ŵyl.

Yfwch, bwytewch a mwynhewch yn un o'n hamgueddfeydd cenedlaethol hyfryd gyda choctels a danteithion Nadoligaidd arbennig. Gallwch chi a'ch gwesteion fwynhau mynediad arbennig i'n neuaddau eiconig, ein casgliadau byd-enwog a'n horielau hardd, sy'n gartref i waith gan Cézanne, Monet a Renoir.

Mwynhewch goctels a danteithion Nadoligaidd bendigedig yn rhai o’r lleoliadau mwyaf arbennig yng Nghaerdydd ac Abertawe – bydd yn noson i'w chofio.

P'un a ydych chi'n dathlu gyda pharti cwmni, digwyddiad arbennig ddiwedd blwyddyn neu'n cynnal noson rwydweithio i'ch cleientiaid, bachwch ar y cyfle hwn.

**Dewiswch un o'n lleoliadau hanesyddol;**

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**

Dewch â'ch gwesteion at ei gilydd yn Neuadd Fawr odidog ac orielau cain Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, cartref casgliad celf cenedlaethol Cymru. Lle arall allwch chi sipian martini a chael hunlun gyda phaentiad Monet?

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**

Treuliwch noson yn Neuadd Weston neu ein Warws ac Orielau diwydiannol, gyda 300 mlynedd o arloesi o'ch cwmpas. Edrychwch dros farina bendigedig Abertawe, gyda mimosa yn eich llaw!

**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**

Teithiwch yn ôl mewn amser, a thrysori'r noson yn ein neuadd groeso fawr a'n horielau anhygoel, gyda hanes Cymru o'ch cwmpas, yn bwyta bonbons twrci a llugaeron!

Mae ein tîm arbenigol wrth law i ofalu am bopeth, gan gynnwys awgrymiadau o ran cerddoriaeth ac adloniant. Am fwy o wybodaeth neu i archebu, cysylltwch â'n Tîm Masnachol.







## Pecynnau Coctels a Danteithion y Nadolig

| Pecynnau | Yn cynnwys | Pris y pen |
|---|---|---|
| **Nadolig Euraidd** | • Defnydd o'r lleoliad i'ch hunain rhwng 6pm a 10pm.<br>• 2 goctel Nadoligaidd y pen.<br>• 5 canape y pen. | £52.80 y pen +TAW |
| **Nadolig Arian** | • Defnydd o'r lleoliad i'ch hunain rhwng 6pm a 10pm.<br>• 2 goctel Nadoligaidd y pen.<br>• 3 canape y pen. | £47.00 y pen +TAW |
| **Nadolig Efydd** | • Defnydd o'r lleoliad i'ch hunain rhwng 6pm a 10pm.<br>• 1 coctel Nadoligaidd y pen.<br>• 3 canape y pen. | £42.00 y pen +TAW |

Bydd angen isafswm o 120 gwestai ar gyfer archeb.

Ar gyfer grwpiau llai, mae croeso i chi gysylltu i drafod opsiynau.

Mae opsiynau ar gyfer gorffen yn hwyrach ar gael ar gais, am dâl ychwanegol.

Dewiswch eich detholiad o goctels a danteithion o'r bwydlenni a ddarperir.

Mae nifer y dewisiadau yn ddibynnol ar y pecyn.

Mae opsiynau arlwyo ychwanegol ar gael i'w trafod â'r arlwywyr.

Mae'n bosibl trafod opsiynau a chostau cerddoriaeth ac adloniant gyda'n tîm.



## Bwydlen Coctels y Nadolig

- Y Grinch - Gwirod Midori, gwirod / rym gwyn, lemonêd, garnais ceirios.
- Y Ffon Felys - Fodca, crème de menthe, Chambord, garnais ffon candi.
- Bucks Fizz - Prosecco, sudd oren.
- Mimosa Llugaeron - Prosecco, sudd llugaeron.
- Martini Melys - Fodca, cordial ysgawen, sudd llugaeron, surop syml, garnais llugaeron.
- Fizz Jin Llugaeron - Jin, sudd llugaeron, lemonêd, garnais llugaeron.
- Ceirios Pefriog - Fodca, gwirod ceirios, dŵr pefriog / lemonêd, garnais ceirios.

## Bwydlen Danteithion y Nadolig

- Bonbons twrci a llugaeron
- Porc a sbeisys, crwst tomato, gyda bacwn crimp.
- Llysiau wedi'u rhostio, crwst tomato, gyda bacwn fegan (fegan)
- Crostini taten rost, bresych coch wedi'i frwysio (ll)
- Tameidiau brie a llugaeron (ll)
- Roliau o rost cnau (ll)
- Pei dantaith caws Caerffili a chennin (ll)
- Tameidiau bara brith wedi'i drwytho â brandi (ll)
- Sêr teisen berffro sinamon (ll)

## Cyswllt

Am fwy o wybodaeth, i drefnu ymweliad safle ac i archebu, cysylltwch dros e-bost â **llogi@amgueddfa.cymru.ac.uk** neu ffoniwch **02920 57 33 22.** Cymerwch gip olwg ar ein gwefan **amgueddfa.cymru/llogi**

## Cefnogwch ni

Elusen yw Amgueddfa Cymru sy'n gasgliad o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, wedi'u lleoli ar hyd a lled y wlad. Bydd pob digwyddiad rydych yn ei gynnal yn ein helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac ar gael i bawb ei defnyddio. Ein nod yw ysbrydoli pawb drwy adrodd stori Cymru yn ein hamgueddfeydd, ein cymunedau ac yn ddigidol.

Rhif elusen gofrestredig 525774

**amgueddfa.cymru**
museum.wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**